

Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda Chyngor Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen

Dydd Llun, 12 Tachwedd am 3.30pm

Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd

Swyddogion Cyngor Rhondda Cynon Taf a oedd yn bresennol:

Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Bernard Whittingham, Pennaeth Cyflawniad Ysgolion (Uwchradd)
Lisa Howell, Swyddog Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
46 o ddisgyblion yn bresennol

Croesawodd Gaynor Davies (GD) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

C. GD – Ydych chi'n deall y cynnig a beth yw eich safbwyntiau arno?

- A. Dwi eisiau aros yma ac os bydd y chweched dosbarth yn cau, bydd raid i mi deithio. Dydy fy rhieni ddim yn gyrru a does dim modd i mi gael trafndiaeth am ddim.
- A. GD - Rydyn ni am roi rhagor o ddewis i chi yn y chweched dosbarth, yn hytrach na chael chweched dosbarth bach mewn ysgolion gyda chyrtsiau cyfyngedig. Bydd y rheiny sy'n gymwys i gael trafndiaeth am ddim yn ei chael, cyn belled â'u bod yn byw ymhellach na'r pellter cerdded diogel o'u hysgol addas agosaf, sef dwy filltir.

C. Os mai Ysgol yr 21ain Ganrif fydd hon, a yw'n yn golygu bydd dim darpariaeth chweched dosbarth ym mhob ysgol yn yr 21ain ganrif?

- A. Rydyn ni'n ceisio creu chweched dosbarth mwy o faint fel bod rhagor o gyrtsiau'r cwricwlwm ar gael, a'u bod yn hyfyw yn ariannol. Rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas ar gyfer technoleg yr y 21ain ganrif. Mae creu ysgol 3-16 oed hefyd yn golygu bod disgyblion yn profi llai o newidiadau dianghenraid ac yn gwneud y broses bontio yn haws iddyn nhw.
- A. Mae datblygiadau Ysgolion yr 21ain Ganrif yn golygu y bydd newid. Bydd y newidiadau'n cynnwys symud ysgolion. Hyd yn hyn yn yr ysgolion newydd sydd wedi agor eleni, mae'r disgyblion a'r staff o'r farn bod symud ysgolion ar gyfer addysg ôl-16 wedi bod yn help mawr i baratoi disgyblion ar gyfer Addysg Uwch.

C. Mae ardal Pontypridd yn enfawr gyda 33,000 o bobl ac mae rhai yn byw mor bell ag Ynys-y-bŵl. Os ydych chi'n gwario £12 miliwn, pam nad oes modd i ni gael darpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd, fel sydd gydag Ysgol Garth Olwg ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg?

A. Mae angen i chweched dosbarth gael tua 250 o ddisgyblion er mwyn iddo fod yn hyfyw yn ariannol. Mae chweched dosbarth bach yn tynnu cyllid oddi wrth ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a 4, sy'n annheg i'r disgyblion hynny. Mae rhagamcanion a fformiwla Llywodraeth Cymru yn helpu'r Awdurdod Lleol i asesu lle mae angen darpariaeth chweched dosbarth a pha mor fawr fyddai angen iddi fod. Mae dalgylchoedd addysg Cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy o faint felly mae angen chweched dosbarth lleol arnyn nhw er mwyn osgoi teithio'n hirach na'r uchafswm o 40 munud y mae Llywodraeth Cymru yn ei argymell.

C. A fyddwch chi'n newid siâp yr adeilad?

A. Mae carfan Eiddo'r Cyngor yn cynnal nifer o arolygon ar yr adeiladau er mwyn gweld beth sy'n bosibl. Gyda buddsoddiad o £12 miliwn, mae'n debyg y bydd rhai o'r adeiladau'n newid.

C. Mae gormod o draffig eisoes ar Ffordd Caerdydd. Os oes 400 o ddisgyblion yn dod i'r chweched dosbarth, sut bydd y ffordd yn ymdopi â'r traffig?

A. Yn rhan o waith Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn aml rydyn ni'n newid y mynedfeydd i ysgolion lle bo angen neu lle bo'n briodol.

A. Mae Adran Priffyrdd RhCT bob amser yn cynnal arolygon i bennu llwybrau diogel i ysgolion. Bydd unrhyw newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y llwybr yn ddiogel i staff a disgyblion gael mynediad i'r safle yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau arafu traffig, newid siâp neu lwybr y ffordd ac ati.

C. Eisoes mae 'ysgol bob oed' sydd â chweched dosbarth, sef Ysgol Gyfun y Pant ac mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn agos iawn. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, fydd dim un ym Mhontypridd, felly pam eich bod am roi chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog?

A. Mae Ysgol Gyfun y Pant yn llawn ac wedi ei gordanysgrifio bob blwyddyn. Rydyn ni'n awyddus i ehangu a chreu un chweched dosbarth mwy o faint fel bod rhagor o opsiynau gyda disgyblion mewn perthynas â'r cwricwlwm. Wrth benderfynu ar y lleoliad, rydyn ni'n edrych ar nifer o ffactorau. Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Gyfun Bryncelynnog chweched dosbarth mwy o faint, canlyniadau Safon Uwch sy'n gwella, a safle addas i adeiladu arno a'i addasu ar gyfer y ddarpariaeth chweched dosbarth newydd.

A. Mae Coleg y Cymoedd yn ardal Pontypridd hefyd yn opsiwn i ddisgyblion sy'n ceisio addysg ôl-16.

C. Felly, pam troi Ysgol Gyfun y Pant yn 'ysgol bob oed' os yw eisoes yn llawn?

A. Mae Ysgol Gyfun y Pant bob amser wedi'i gordanysgrifio ac mae dalgylch yr ysgol wedi'i newid er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater yma.

A. Hefyd, mae cyfyngiadau ynghlwm â rhai safleoedd, yn enwedig Ysgol Gyfun y Pant, gan fod rhaid cael digon o le i ddisgyblion chwarae yn yr awyr agored. Fydden ni ddim yn cael adeiladu llawer yn rhagor ar safle Ysgol Gyfun y Pant oherwydd maint y safle.

C. Ychydig flynyddoedd yn ôl, ceisiodd Ysgol Uwchradd Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain anfon ei disgyblion i Goleg y Cymoedd i fynd i'r chweched dosbarth. Daeth yr Ysgol â'r disgyblion yn ôl gan fod y canlyniadau ddim yn ddigon da. Sut mae canlyniadau Coleg y Cymoedd erbyn hyn?

A. Mae Coleg y Cymoedd yn cynnig ystod o gyrsiau Safon Uwch a chyrsgalwedigaethol. Bydd modd i chi ddewis rhwng Coleg y Cymoedd ac Ysgol Gyfun Bryncelynnog ar gyfer eich addysg ôl-16.

A. Roedd canlyniadau heb eu cadarnhau Safon Uwch Coleg y Cymoedd yn 2018 yn dda iawn. Bydd y rhain yn cael eu cadarnhau'n fuan a'u cyhoeddi.

C. Roeddwn i'n arfer teithio dros awr i Goleg Caerdydd bob dydd. Mae'n bosibl y byddai'n cymryd yr un faint o amser i gyrraedd Ysgol Gyfun Bryncelynnog o'r fan hyn, felly rwy'n credu y byddai hyn yn golygu y byddai mwy o fyfyrwyr yn dewis mynd i'r Coleg yn awtomatig.

A. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell ddylai'r daith i'r ysgol ddim bod yn hirach na 40 munud. Yn bendant, ddylai'r daith o Ysgol y Ddraenen Wen i Ysgol Gyfun Bryncelynnog ddim bod mor hir â hynny i'w disgyblion. Mae hefyd yn bwysig parhau'r berthynas rhwng y disgybl a'r athro, a dyna pam mae addysg 3-16 oed yn opsiwn da yma. Mae disgyblion addysg ôl-16 yn gallu ymdopi'n well â chyfnod pontio sy'n sicrhau bod modd iddyn nhw gael yr opsiynau gorau ar eu cyfer o ran y cwricwlwm.

C. Mae gyda disgyblion chweched dosbarth wersi rhydd, sy'n golygu bod gyda nhw fwy o amser rhydd i wneud dyletswyddau ychwanegol, e.e. bod ar gyngor yr ysgol a chymryd rhan mewn cynlluniau mentora disgyblion iau. Byddai raid i ddisgyblion blwyddyn 11 wneud hyn, a does dim amser gyda nhw i'w wneud.

A. Mewn gwirionedd, dylai disgyblion y chweched dosbarth fod yn fwy prysur oherwydd natur eu llwyth gwaith. Mae gyda nhw lawer o waith astudio annibynnol i'w wneud. Rwyf wedi gweithio mewn ysgolion 11-16 oed, ac o fy mhrofiad i, mae'n fuddiol i bobl ifanc 15-16 oed achos maen nhw'n mwynhau cael y cyfle i fod yn gyfrifol am bethau fel hyn ar oedran iau.

C. Os yw blwyddyn 12 yn debyg i flwyddyn 11, fyddwn i ddim eisiau'r cyfrifoldebau yna ar oedran mor ifanc. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn helpu'r holl ddisgyblion eraill, ac mae gyda disgyblion blwyddyn 11 fwy o arholiadau na disgyblion blwyddyn 12. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn creu papurau newydd, yn gweithredu fel llysgenhadon gwrth-fwlio, ac ati. Pe byddai dim modd iddyn nhw helpu, byddai'n anodd.

C. Ces i gymaint o gymorth gan ddisgyblion y chweched dosbarth, yna symudais i'r ysgol yma. Dewisais i'r ysgol oherwydd yr addysg a'r perthnasoedd, yn hytrach na mynd i Ysgol Gymuned Tonyrefail neu Ysgol Gyfun Bryncelynnog sydd yn agosach ata i.

C. Mae Lôn yr Ysgol eisoes yn brysur iawn. A fydd modd i chi reoli'r nifer gynyddol o bobl gyda'r gyllideb sydd gyda chi?

A. Mae'r cynnig yn cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru felly mae hyn yn ei wneud yn llawer mwy hyfyw yn ariannol. Byddwn ni'n cynnal asesiadau llwybrau diogel ac mae gyda ni ddyletswydd gofal i sicrhau bod y llwybrau i'r ysgol yn ddiogel.

C. Mae ysgol 3-19 oed yn cael ei chreu yn Ysgol Garth Olwg. Pam ein bod ni ddim yn cael y cyfle yna i gael rolau uwch-reoli? Fyddwn ni ddim yn cael hynny yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog.

A. Byddai modd i'r holl ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gyfun Bryncelynnog gael y cyfle i ymgeisio am y rolau yna yn y chweched dosbarth newydd. Byddai'r ddarpariaeth newydd yn fwy ond mae'n bosibl y byddai'n rhoi'r cyfle i gael gwell addysg. Bydd gyda disgyblion y chweched dosbarth yno gyfrifoldebau i helpu gyda'r ysgol gyfan o hyd.

A. Yn Nhonyrefail lle mae adrannau chweched dosbarth eraill wedi cyfuno, roedd y Prif Fachgen presennol o Ysgol Gymuned Glynrhedynog ac mae newydd symud i Ysgol Gymuned Tonyrefail i fod yn y chweched dosbarth.

C. Felly, byddai modd i ni helpu disgyblion iau yno o hyd?

A. Byddai

C Pam ydyn ni'n ei newid os yw'n mynd yn iawn hyd yma?

A. Rydyn ni bob amser yn ymdrechu i symud ymlaen a gwella. Mae gwelliannau'n golygu newid, ac rydyn ni bob amser yn ymdrechu i wella'r ddarpariaeth addysg gyfredol trwy'r newid yna.

C. Hanner y ddarpariaeth chweched dosbarth yma a hanner yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd. Beth sy'n digwydd i mi achos bydda i'n mynd i flwyddyn 13 pan fydd hyn yn digwydd?

A. Byddai'r opsiwn gyda chi i symud ddiwedd blwyddyn 11. Os ydych chi'n aros ymlaen ar gyfer y chweched dosbarth yn yr ysgol, bydd raid i'ch pynciau gael eu cynnig pan fyddwch chi'n symud.

C. Mae Ysgol Gyfun y Pant wedi cael dros £20 miliwn ac mae Ysgol Gymuned Tonyrefail wedi cael dros £40 miliwn. Sut mae modd i ni fod yn 'ysgol bob oed' gyda chyllideb o £12 miliwn yn unig?

A. Mae'r ffordd y mae cyllidebau yn cael eu cyfrifo yn dibynnu ar faint a chyflwr yr hyn sydd yno eisoes. Rydyn ni'n gwario llawer ar ein hysgolion yn RhCT. Mae

angen i ni ystyried y darlun cyflawn wrth edrych ar gyllidebau. Bydd yr arian y mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn ei derbyn yn golygu bod disgyblion yn elwa yma hefyd.

C. Mae'n ymddangos bod dim digon o arian yn cael ei wario yma er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn ecogyfeillgar, ac mae technoleg newydd yn costio llawer o arian.

A. Os ydych chi'n cymharu £40 miliwn â £12 miliwn, yn amlwg mae'n ymddangos yn llawer llai, ond rydyn ni'n edrych ar y safleoedd gan ystyried y darlun cyflawn. Ymgynghoriad yw hyn o hyd, ac os yw'r cynnig yn cael ei dderbyn a chaiff arolygon eu cwblhau, mae'n bosibl y bydd y gyllideb sy'n cael ei dyrannu yn cynyddu neu'n lleihau. Hefyd, dydy hyn ddim yn wariant untro. Mae gwaith gwella ysgolion yn cael ei gynnal yn barhaus.

C. Gyda rhagor o ddisgyblion yn dod yma a rhagor o draffig ar y safle, sut byddwch chi'n sicrhau bod y lle yn ecogyfeillgar?

A. Mae defnyddio deunyddiau newydd wrth adeiladu ysgolion yn ei gwneud yn ecogyfeillgar trwy ostwng allyriadau carbon deuocsid sy'n cael eu defnyddio i greu gwres ac ati. Bydd asesiad effaith traffig hefyd yn cael ei gynnal.

C. Cafodd yr ysgol yma ei hadeiladu amser maith yn ôl. Dylid adeiladau Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda deunyddiau'r 21ain ganrif a ddylai adeiladau ddim bod ag asbestos ynddyn nhw. A yw £12 miliwn yn ddigon?

A. Fydd pob adeilad ddim yn cael ei ddileu ond mae angen i ni gynnal cymaint o arolygon â phosibl i sicrhau ein bod yn buddsoddi'n synhwyrol mewn ffordd sy'n ddiogel i'r disgyblion a'r staff.

C. GD - Beth yw'r ffordd orau i ni ymgynghori â chi yn y dyfodol?

A. Disgyblion – Gwasanaeth yn yr ysgol, arolygon ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol.

Cwestiynau a sylwadau ysgrifenedig gan Gyngor Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen

- *Beth yw eich cynlluniau o ran mynediad i bobl anabl ar gyfer yr 'ysgol bob oed' newydd?*
- *Ydych chi wedi ystyried sut bydd cael plant ifainc a phlant hŷn mewn un lle yn effeithio ar eu hiechyd meddwl, a'r effaith seicolegol sydd ynghlwm?*
- *Pa iawndal bydd pobl sy'n byw ar Lôn yr Ysgol yn ei gael os ydych chi'n newid y ffordd a'r ardaloedd cyfagos yn sylweddol?*
- *Sut ydych chi'n cyfiawnhau'r gwahaniaeth yn y gwariant ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif? Er enghraifft, roedd Ysgol Gymuned Tonyrefail wedi cael £40 miliwn ac roedd Ysgol Gyfun y Pant wedi cael £23 miliwn, ond dim ond £12 miliwn y byddwn ni'n ei gael. Pam mae'r gwahaniaeth mor fawr? Oni ddylai'r ffocws fod arnon ni, a ninnau'n ardal mor ddifreintiedig?*
- *Rydyn ni wedi bod yn yr ysgol ers blwyddyn 7. Pam ddylai hyn amharu ar ein haddysg? Dwi ddim yn deall pam mae angen i ni symud. Pam newid rhywbeth*

sy'n gweithio'n iawn fel y mae? Fyddai'r ysgol ddim yr un peth pe byddai disgyblion y chweched dosbarth yn gadael.

- A yw'r 'ysgolion bob oed' presennol yn llwyddo?
- Byddai hyn yn effeithio ar yr holl blant. Mae'n ddigon o straen astudio ar gyfer TGAU, ond mae peidio â chael digon o le yn y dosbarth i ddysgu'n effeithiol yn niweidiol iawn i addysg pawb.
- Faint o'n manau gwyrdd fyddwch chi'n eu defnyddio?
- Beth sydd gydag Ysgol Gyfun Bryncelynnog sydd ddim i'w gael ym Mhontypridd?
- Rydyn ni wedi darllen yr adroddiadau rydych chi wedi'u hysgrifennu am ein hysgol ac maen nhw'n eithaf negyddol. Mewn gwirionedd, rydyn ni ar y cyd ag ysgolion fel Ysgol Gyfun Bryncelynnog ac Ysgol Uwchradd Pontypridd. Sut y bydd adolygiadau fel hyn yn annog disgyblion Ysgol Gynradd Gwauncelyn i ymuno â'n hysgol?
- Mae gormod o bwysau ar ddisgyblion blwyddyn 11 eisoes. Byddai cael gwared â'r chweched dosbarth yn ei wneud yn waeth.
- Sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod disgyblion mewn ysgolion cynradd gwahanol yn cael yr un addysg â'r rhai sy'n rhan o'r ysgol yma?
- Mae arholiadau TGAU wedi newid yn sylweddol, felly mae'n annheg rhoi dyletswyddau disgyblion y chweched dosbarth i ddisgyblion blwyddyn 11. Yn fy marn i, mae chweched dosbarth bach yn fuddiol gan fod modd i athrawon ganolbwyntio ar anghenion disgyblion.
- Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud gyda'r athrawon presennol pan fydd yr ysgol newydd wedi'i hadeiladu?
- Beth fyddai'n digwydd pe byddai graddau Safon Uwch yn gwaethygu oherwydd y newid?
- Pa strategaethau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau y bydd plant iau yn ddiogel?
- Ydych chi wir yn disgwyl i blant o Ysgol Gynradd Gwauncelyn ddod i 'Bonty'*, dim ond i fynd yn ôl yn 16 oed? (*aneglur os mai'r lle neu'r ysgol yw hyn)
- A minnau'n ddisgybl blwyddyn 10, bydda i yn fy mlwyddyn olaf yn 2022. Des i i Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen gan feddwl y byddwn yn aros ymlaen i astudio ar gyfer arholiadau Safon Uwch. Oes disgwyl i mi symud i ysgol wahanol hanner ffordd trwy fy addysg Safon Uwch neu symud y flwyddyn gynt? Fodd bynnag, gyda'r ddau opsiwn, mae'n bosibl bydda i a fy ffrindiau agos sy'n aros ymlaen ar gyfer y chweched dosbarth yn cael ein gwahanu. Sut mae disgwyl i mi gydbwyso fy mywyd cymdeithasol gyda'm haddysg?
- Mae'r maes parcio eisoes yn orlawn. Gyda dwywaith y nifer o ddisgyblion yn yr ysgol, sut byddwch chi'n darparu lle ar gyfer y nifer o geir/bysiau, ac ati a fydd yma?
- Rwy'n credu bod disgyblion sy'n mynd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog dan anfantais anferth oherwydd byddai'n rhaid i ni ddysgu sut i ddod o hyd i'n ffordd o gwmpas yr ysgol.
- Pam mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn well nag Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen? Mae 19% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn hawlio Prydau Ysgol am Ddim, a'r ganran ar gyfer Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yw 25%. Dylai graddau Ysgol Gyfun Bryncelynnog fod yn waeth, ond mae gyda ni fwy o farciau 1 a 2 ar y siartiau* nag Ysgol Gyfun Bryncelynnog. (*dim sôn yn y Saesneg am ba siartiau y mae'r unigolyn yma yn cyfeirio atyn nhw) RYDYN NI'N UWCH NA'R CYFARTALEDD. (priflythrennau yn y Saesneg)
- A fydd raid i ni dalu i deithio?

- *Pan fyddwch chi'n creu'r ysgol 3-16 oed, fydd blynyddoedd 7/8/9 ddim yn cael y dewis i fynd i'r chweched dosbarth ym Mhontypridd*, ac os ydych chi'n creu'r 'ysgol bob oed', rydych chi'n tynnu'r dewis yna oddi wrthon ni, felly pam does dim modd i chi roi'r dewis i ni benderfynu p'un a ydyn ni'n mynd i'r chweched dosbarth ym Mhontypridd*. (Saesneg ddim yn gwneud llawer o synnwyr/*ddim yn eglur os mai'r lle neu'r ysgol y mae'n cyfeirio ato)*
- *Ar beth fydd y £12 miliwn yn cael ei wario? A yw'r prosiect yma er lles gorau addysg neu arian? Mae bywyd yn y coleg yn wahanol iawn i fywyd yn y chweched dosbarth. Heb ddarpariaeth chweched dosbarth ym Mhontypridd* mae'n bosibl y bydd addysg bellach yn dirywio. (*aneglur os mai'r lle neu'r ysgol yw hyn)*
- *A fyddai Cyngor RhCT yn gyfrifol am addysg yng Ngholeg y Cymoedd? (Mae Estyn yn dweud bod addysg Safon Uwch Coleg y Cymoedd yn "ddigonol")*. (*mewn cromfachau yn y Saesneg)*
- *Ydych chi wedi ystyried y disgyblion sydd ym mlwyddyn 7 a fyddai eisiau mynd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen efallai?*
- *Beth fydd yn digwydd i'r athrawon yn yr ysgolion cynradd sy'n cau?*
- *Beth fydd yn digwydd i ddisgyblion presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn ystod y gwaith adeiladu?*
- *Mae symud i ysgol newydd yn frawychus iawn. Os dydy'ch ffrindiau ddim yn mynd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, efallai fyddwch chi ddim yn adnabod unrhyw un yno a fyddwch chi ddim mor agos at yr athrawon.*
- *Os yw Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn cael £10 miliwn ar gyfer canolfan chweched dosbarth, beth am ei symud i Bontypridd lle mae llawer mwy o bobl. Mae 33,000 o bobl ym Mhontypridd ac mae'n dref brifysgol.*
- *Mae ceir yn gyrru'n rhy gyflym ar Ffordd Caerdydd, ac mae'n bosibl y bydd cynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif hefyd yn achosi traffig o'r Ddraenen Wen i Lanbad ac efallai hyd yn oed Ffynnon Taf. Er y bydd bysiau i gludo'r disgyblion, bydd ceir rhieni yno o hyd ac mae'n debygol y bydd rhagor o ddamweiniau'n digwydd.*
- *Mae'r gweithgareddau allgyrsiol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan y chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen nid yn unig yn fuddiol i ddisgyblion CA3 a ChA4, ond maen nhw hefyd yn helpu â cheisiadau prifysgol disgyblion CA5, sy'n cymryd i ystyriaeth profiad yn ogystal â chanlyniadau arholiadau.*
- *A oes pryder y bydd yr holl newidiadau sydd ynghlwm â'r chweched dosbarth yn annog disgyblion i beidio â pharhau â'u haddysg?*
- *Pam fyddai rhoi babanod yn yr un amgylchedd ag oedolion ifainc yn fuddiol?*
- *Wrth ehangu ein hystod oedran, yn sicr bydd angen ehangu'r ysgol ei hun gan fod llawer o'r ystafelloedd dosbarth bron bob amser yn llawn.*
- *Rwy'n credu y dylen ni gael chweched dosbarth a dylai 'Ponty'* gael chweched dosbarth. Mae'n hawdd cyrraedd y ddau le a dydyn nhw ddim yn rhy bell i ffwrdd. (*geiriau'r awdur)*
- *Pam ydych chi'n gwario llai o arian arnon ni? Ysgol Gyfun y Pant. Beth fyddwch chi'n ei wneud â'n maes parcio?*
- *Ydych chi'n poeni am fwlio mewn ysgolion? Yn y bôn, rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru yn poeni am ein dyfodol, ond os bydd plentyn yn cael ei fwlio yn yr ysgol a does dim modd i'r athrawon ei helpu, bydd dyfodol y plentyn yma yn hollol lwm. Felly, rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru ddim yn poeni am y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw myfyrwyr yn cael eu*

bwlio, oherwydd os yw'n effeithio arnyn nhw, mae'n bosibl y byddan nhw eisiau dod â'u bywydau i ben. (Saesneg yn wael)

- *Os oes gyda chi £40 miliwn i'w wario ar Ysgol Gymuned Tonyrefail a £23 miliwn ar Ysgol Gyfun y Pant, pam mae Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen dim ond yn cael £12 miliwn? Pe bydden ni'n cael rhagor o arian, byddai modd i ni gael 'ysgol bob oed' sy'n CYNNWYS* chweched dosbarth. (*priflythrennau'r awdur)*
- *Mae Ysgolion yr 21ain Ganrif i fod yn ecogyfeillgar, ond rydych chi am adeiladu rhagor o ffyrdd a dinistrio rhagor o dir glaswellt a chaeau'r ysgol.*
- *Pan fydd yr 'ysgol bob oed' yn agor, beth fydd yn digwydd os dydy hi ddim yn cyflawni'n dda iawn ar ôl blwyddyn, er enghraifft?*
- *Drwy gael ysgol 3-16 oed, sut byddai'r amseroedd cinio yn cael eu haddasu ar gyfer anghenion y plant yma? Yn sicr, byddai'n achosi problem drwy gael egwyl i blentyn tair oed yr un pryd â phlentyn 16 oed.*
- *Ers diddymu'r arholiad i fynd i'r ysgol ramadeg, cydraddoldeb o ran addysg a chyfleoedd oedd y prif nod. Mae dileu'r chweched dosbarth o Bontypridd* yn mynd yn groes i'r cydraddoldeb yma achos dim ond yn y dalgylch y mae gyda ni'r cyfle i fynd i'r chweched dosbarth. (*aneglur os mai'r lle/ysgol yw hyn)*
- *Os oes chweched dosbarth ar gampws Prifysgol De Cymru, yna mae modd iddyn nhw weithio law yn llaw a'i gwneud yn haws i ddisgyblion bontio i'r chweched dosbarth ac yna i'r brifysgol.*
- *Pam mae disgwyl i'r disgyblion aros ar safle Ysgol Gyfun Bryncelynnog ar ôl cyrraedd yno am 8:30 y bore? A minnau'n ddisgybl chweched dosbarth, weithiau mae gyda fi un wers y dydd. Ond dwi'n mwynhau fy annibyniaeth a dwi'n astudio gartref oherwydd bod yr ysgol yn rhy swnllyd.*
- *Mae tynnu'r chweched dosbarth o Bontypridd* yn lleihau potensial ysgolion i gael canolfan ragoriaeth. (*aneglur os mai'r lle/ysgol yw hyn) Dydy disgyblion ddim yn cael eu gwthio i astudio ar gyfer Safon Uwch achos does dim llawer o gyfleoedd. Pam does dim dewis o chweched dosbarth ond yn hytrach lle rydych chi agosaf ato? (Saesneg yn wael)*
- *Beth fydd y sefyllfa o ran parcio? Does dim digon o le ar hyn o bryd, ac os ydych chi'n adeiladu mynedfa newydd, bydd yn costio arian. Felly beth ydych chi am ei wneud?*